

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Dydd Mercher, 6 Chwefror 2013
 Siambr y Cyngor, Prifysgol Abertawe**

Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Dylan Foster Evans, Dr Carwyn Jones, Dr Elin Haf Gruffydd Jones, Gwilym Dyfri Jones, Yr Athro Gwynedd Parry, Dr Eleri Pryse, Yr Athro Deri Tomos
- Aelodau (Sefydliad): Phil Ainsworth, Dr Gwenno Ffrancon, Dr Anwen Jones, Dr Gina Morgan, Dr Gwilym Roberts, Dr Siân Wyn Siencyn, Dr Enlli Thomas, Denise Williams
- Aelodau (Myfyrwyr): Manon George, Alys Rosser
- Aelodau (Colegau Cymru): Carys Swain
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Nia Brown (Swyddog Datblygu)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Croesawyd Nia Brown fel aelod newydd o staff y Coleg a fyddai'n cynorthwyo gyda gweinyddiaeth y cyfarfod. 1.3. Diolchwyd i Brifysgol Abertawe am letya'r cyfarfod ac i Lynsey Thomas yn benodol am hwyluso manylion y dydd.		
2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau gan Julie Brake, Dr Geraint Cunnick, Yr Athro Siwan Davies, Adam Jones, Dr Lisa Lewis (Denise Williams yn dirprwyo), Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Gwenan Owain, Gwerfyl Roberts, Dr Gwennan Schiavone a Daniel Taylor. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2012	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir; ac eithrio nodi fod Dr Geraint Cunnick wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod.		
4. Cylch Gorchwyl	<p>4.1. Nodwyd yr angen i edrych ar y Cylch Gorchwyl yn flynyddol a'i gadarnhau.</p> <p>4.2. Nodwyd bod angen eglurdeb ar gynrychiolaeth unigolion a enwebwyd gan sefydliad neu a benodwyd gan y Coleg ar y Bwrdd gan gynnwys anfon dirprwy. Nodwyd mai fel unigolion y penodir enwebiadau'r Coleg ac felly na fyddai dirprwy yn addas.</p> <p>4.3. Nodwyd yr angen i edrych ar deitlau'r paneli pwnc.</p> <p>4.4. Derbyniwyd y Cylch Gorchwyl.</p>	<p>Swyddogion y Coleg</p> <p>Swyddogion y Coleg</p>	<p>Erbyn Mai 2013</p> <p>Erbyn Mai 2013</p>
5. Cynllunio Academaidd	<p>5.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr. Crybwyllwyd y bu'r dasg o baratoi'r cynlluniau yn fwy sylweddol nag y rhagwelwyd ac yn fwy o her na'r disgwyl i'w cwblhau. Nodwyd yn benodol nad yw'r cynlluniau datblygu a baratowyd gan y Ganolfan yn parhau mewn grym. Nodwyd yr ymgynghorwyd â'r adrannau penodol a phwysleisiwyd ymrwymiad y sefydliadau a'r adrannau i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nodwyd yr angen i strwythuro'r cyfarfodydd gyda'r adrannau i gael canlyniadau mwy cadarnhaol a chyson. Nodwyd yr angen yn y dyfodol i weld pa fylchau sydd yn y ddarpariaeth yn hytrach na asio'n unig rhwng y sefydliadau.</p> <p>5.2. Diolchwyd i Swyddogion y Coleg, yn arbennig y Cofrestrydd, am yr holl waith o baratoi'r cynlluniau.</p> <p>5.3. Nodwyd bod dull cyflwyno'r cynlluniau wedi newid er hwylustod darllen a chymharu gan gynnwys tablau er mwyn crynhoi'r wybodaeth yn hytrach na naratif yn unig.</p> <p>5.4. Penderfynwyd fod angen diwygio pob cynllun i gynnwys blaenoriaethau buddsoddi'r Coleg (h.y. cynnwys colofn</p>	<p>Cofrestrydd i ddiwygio'r cynlluniau</p>	<p>Erbyn Mai 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>arall yn y tablau i arddangos data sawl swydd fesul sefydliad mae'r Coleg yn cyllido a'r sefydliad yn cyllido yn y gorffennol a'r presennol).</p> <p>5.5. Cytunwyd bod eisiau proses monitro cynnydd blynyddol yng ngoleuni'r targedau y byddai'r Bwrdd Academaidd yn adolygu o dro i dro.</p>	Staff y Coleg i edrych ar y Cynllun Staffio	
6. Cynllun y Gyfraith	<p>6.1. Cyflwynwyd drafft terfynol o Gynllun y Gyfraith.</p> <p>6.2. Adroddwyd fod targedau wedi eu gosod yn deillio o'r cynllun.</p> <p>6.3. Awgrymwyd bod angen cyswllt ar y myfyriwr nad oedd o reidrwydd yn ddarlithydd neu'n diwtor. Awgrymwyd y dylid dilyn cyfarwyddyd HEFCW am brofiad myfyrwr.</p> <p>6.4. Nodwyd fod darpariaeth sylweddol eisoes gan brifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd.</p> <p>6.5. Argymhellwyd bod angen y canlynol yn y cynllun: <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio modiwlau craidd - cwricwlwm cyffredinol ym mhob sefydliad • Cydweithio - Angen datblygu unigolion • Her i sicrhau niferoedd - angen cyrraedd nod </p> <p>6.6. Derbyniwyd drafft terfynol y cynllun mewn egwyddor gyda mân ddiwygiadau.</p>	Dosbarthu Cynllun terfynol i'r Bwrdd Academaidd	Ebrill 2013
7. Cynllun Daeryddiaeth, Amaethyddiaeth a Gwyddor Amgylchedd	<p>7.1. Cyflwynwyd drafft terfynol o'r Cynllun Daeryddiaeth, Amaethyddiaeth a Gwyddor Amgylchedd.</p> <p>7.2. Adroddwyd nad oedd newidiadau mawr i'r cynllun yn sgîl trafodaethau llawn ar hyd y blynyddoedd.</p> <p>7.3. Nodwyd y cafwyd trafodaeth gadarn a phendant gyda Phrifysgol Bangor ynghylch y ddarpariaeth ôlraddedig.</p> <p>7.4. Trafodwyd yr angen i arddangos goblygiadau'r tri maes yn y tri sefydliad ac ariannu swyddi yn y dyfodol er mwyn osgoi dyblygu.</p> <p>7.5. Nodwyd yr angen i wahaniaethu rhwng</p>	Dosbarthu Cynllun terfynol i'r Bwrdd Academaidd	Ebrill 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<ul style="list-style-type: none"> • dyhead sefydliad • buddsoddiad y sefydliad; a • gwariant y Coleg <p>7.6. Derbyniwyd drafft terfynol y cynllun mewn egwyddor gyda mân ddiwygiadau.</p>		
8. Cynllun leithoedd Modern	<p>8.1. Cyflwynwyd drafft diwygiedig o'r Cynllun leithoedd Modern.</p> <p>8.2. Nodwyd trylwyredd yr ymchwil i'r Cynllun hwn, cadernid y cynllun gweithredu a'r ystyriaeth benodol i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol uchelgeisiol.</p> <p>8.3. Cydnabuwyd arweiniad brwdfrydig a chadeiryddiaeth gofalus Mererid Hopwood wrth greu'r cynllun.</p> <p>8.4. Nodwyd ei fod yn faes blaenoriaeth gan y Llywodraeth ac addysg uwch.</p> <p>8.5. Nodwyd heblaw am fuddsoddiad y Coleg ni fyddai unrhyw ddarpariaeth Cymraeg yn y maes a bod hynny'n hollbwysig i fyfyrwyr gallu dysgu trwy'u mamiaith.</p> <p>8.6. Nodwyd yr angen i fesur llwyddiant yn y cynllun.</p> <p>8.7. Nodwyd yr angen i gael cyfarwyddyd gan HEFCW i drafod credydau ac iaith targed.</p> <p>8.8. Trafodwyd goblygiadau asesu ac arfer gorau sydd ar waith trwy'r QAA. Nodwyd bod y QAA wedi gwneud cais i'r Coleg i'w cynghori ar ddarpariaeth Cymraeg ac yn sgîl hynny bydd Diwrnod Ymgynghorol maes o law i drafod asesu a'r Cod Ymarfer.</p> <p>8.9. Awgrymwyd bod angen i'r cynllun egluro sut y gellid cynyddu niferoedd myfyrwyr ac amlinellu strategaeth marchnata.</p> <p>8.10. Cydnabuwyd y cynnydd yn y cynllun ond bod angen datblygiad ymhellach.</p>	Cyflwyno Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd	Mai 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
9. Cynllun Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg	<p>9.1. Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r Cynllun Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.</p> <p>9.2. Adroddwyd y bu trafodaeth helaeth ar y Panel gan nodi heriau denu myfyrwyr newydd ac ehangu darpariaeth ail-iaith sy'n faes argyfyngus.</p> <p>9.3. Awgrymwyd bod angen mwy o gynllunwyr ieithyddol yn hytrach nag arbenigwyr iaith gan nad yw meysydd proffesiynol yn cael eu datblygu.</p> <p>9.4. Awgrymwyd bod angen mwy o wybodaeth ynghylch pynciau penodol o fewn y maes gan gynnwys rhestr sy'n cynnwys, er enghraifft, Addysg / Drama a bod angen diweddarau'r ystadegau a allai fod yn anghyson neu nad ydynt yn gyfredol.</p> <p>9.5. Crybwyllwyd yr angen i fod yn rhan o drafodaeth gyda'r Llywodraeth ynghylch adolygu maes addysg uwchradd (yn sgîl y newidiadau arfaethedig i TGAU a Safon A) er mwyn hwyluso llif llwybrau addysg uwch a oedd wedi pellhau yn y blynyddoedd diwethaf rhwng CBAC a phrifysgolion.</p> <p>9.6. Nodwyd bod angen y newidiadau canlynol yn y cynllun</p> <ul style="list-style-type: none"> • manylion trywydd darpariaeth iaith/lenyddiaeth • gwirio data – myfyrwyr / graddau cyfyng • natur y datblygiad – gwaith traddodiadol/newydd <p>9.7. Cytunwyd bod angen ail-edrych ar y drafft a chyflwyno cynllun pellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.</p>	<p>Cyflwyno Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd</p>	<p>Mai 2013</p>
10. Cynllun Cerddoriaeth	<p>10.1. Cyflwynwyd drafft o'r Cynllun Cerddoriaeth, er gwybodaeth.</p> <p>10.2. Nodwyd bod buddsoddiad sylweddol yn y maes eisoes a bod y wybodaeth yn y cynllun yn anghyflawn.</p> <p>10.3. Nodwyd y darperir cynllun gweithredu yn ei ffurf derfynol yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Cyflwyno Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd</p>	<p>Mai 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
11. Cynllun Gwyddor Chwaraeon	<p>11.1. Cyflwynwyd drafft o'r Cynllun Gwyddor Chwaraeon.</p> <p>11.2. Nodwyd bod y Cynllun yn seiliedig ar gynlluniau unigol. Trafodwyd heriau'r maes sydd wedi profi datblygiad diweddar ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, a rhywfaint o ddatblygiad mewn mannau eraill. Nodwyd fod potensial amlwg i'r maes ond fod aneglurder parthed faint o leoliadau a fyddai'n gynaliadwy yn y maes.</p>	Cyflwyno Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd	Mai 2013
12. Cynllun Busnes	<p>12.1. Cyflwynwyd drafft o'r Cynllun Busnes.</p> <p>12.2. Adroddwyd tan yn ddiweddar mai Prifysgol Bangor yn unig oedd â'r ddarpariaeth helaeth ac mae darniog oedd darpariaeth prifysgolion Aberystwyth a'r Drindod Dewi Sant.</p> <p>12.3. Adroddwyd bod cydweithrediad hwyliog rhwng Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg erbyn hyn.</p> <p>12.4. Nodwyd er nad oes cynnydd yn y Drindod Dewi Sant mae cyfleoedd wrth gydweithio ag addysg bellach, bod potensial ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe ac ymrwymiad gan Aberystwyth wrth gyllido swydd.</p> <p>12.5. Nodwyd bod Ysgoloriaethau eisoes yn y maes.</p> <p>12.6. Nodwyd bod y wybodaeth yn y tablau'n aneglur a bod eisiau gwirio hynny.</p> <p>12.7. Nodwyd y darperir cynllun yn ei ffurf derfynol yn y cyfarfod nesaf.</p>	Cyflwyno Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd	Mai 2013
13. Astudiaethau Cyfieithu	<p>13.1. Cafwyd adroddiad llafar ar ddatblygiadau ym maes Astudiaethau Cyfieithu gan grybwyll bod cylchlythyr ar wefan y Coleg gyda manylion pellach.</p> <p>13.2. Adroddwyd fod y Coleg wedi comisiynu Heini Gruffudd i baratoi argymhellion y gallai'r Coleg ei gefnogi drwy'r Cynllun Academaidd a chynigiwyd y cysyniad o 'Ysgol Astudiaethau Cyfieithu' ar sail genedlaethol. Adroddwyd</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>bod Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal adolygiad ar faes cyfieithu a bod cyfle i sicrhau fod unrhyw gynlluniau a ddatblygir gan y Coleg yn cydlynu â chanlyniadau'r adolygiad hwnnw.</p> <p>13.3. Nodwyd bod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi mabwysiadu'r prif argymhellion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod y Coleg yn symbylu sefydlu Ysgol Astudiaethau Cyfieithu, drwy gynnal trafodaeth gyda'r sector addysg uwch • Bod swyddi academiaidd a gyllidir gan y Coleg yn cael eu lleoli o fewn fframwaith yr 'Ysgol' • Bod unrhyw ddarpariaeth yn ymateb i anghenion y diwydiant cyfieithu, gan gynnwys darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol • Bod y Bwrdd yn argymhell penodi unigolyn cymwys i arwain y gwaith o greu cynllun gweithredu 		
<p>14. Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg (BA/13/02/14)</p>	<p>14.1. Cyflwynwyd ac ystyriwyd papur yn argymhell diwygiadau i'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil. Diolchwyd i Dr Dylan Phillips am ei waith yn paratoi'r papur diwygiedig.</p> <p>14.2. Adroddwyd bod y Coleg yn awyddus i ddenu'r myfyrwyr disgleiriaf bob blwyddyn ac yn sgîl hynny'r angen am broses tryloyw.</p> <p>14.3. Cafwyd trafodaeth hir ar farchnata ac amseriad yr ysgoloriaethau gyda'r aelodau yn nodi pryder am gollu ymchwilwyr disglair posibl yn y broses.</p> <p>14.4. Ar ôl trafodaeth fanwl ar oblygiadau'r newidiadau cymeradwywyd amodau'r cynllun (gyda mân ddiwygiadau) er mwyn dosbarthu cylchlythyr o fewn yr amserlen academiaidd ac i adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.</p> <p>14.5. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Academaidd yn adolygu trefn newydd y cynllun ym mis Hydref.</p>	<p>Cylchredeg cylchlythyr</p> <p>Swyddogion y Coleg</p> <p>Bwrdd i drafod y Cynllun</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>Chwefror 2013</p> <p>Hydref 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
15. Rheoliadau Asesu (BA/13/02/15)	15.1. Cyflwynwyd y Rheoliadau Asesu gan y Cofrestrydd at sylw'r Bwrdd. 15.2. Eglurwyd y byddai myfyrwyr yn cael y cyfle i ymgeisio am y Dystysgrif Sgiliau Iaith am y tro cyntaf fis Mai. 15.3. Nodwyd yr angen i gynnwys y cyfle i ddarparu cyfarpar ar gyfer myfyrwyr anghenion arbennig. 15.4. Derbyniwyd y rheoliadau yn unfrydol gyda mân newidiadau.		
16. Cynrychiolaeth Myfyrwyr yn y Coleg	16.1. Nodwyd adroddiad ysgrifenedig a baratowyd gan Adam Jones (Cynrychiolydd Myfyrwyr) yn crynhoi'r pryderon am gynrychiolaeth myfyrwyr a'r angen i weithio'n agosach gydag UCMC i wella'r sefyllfa gyfredol. 16.2. Gofynnwyd i Alys Rosser gysylltu ag Adam Jones i fwrw ymlaen â'r mater hwn.		
17. Materion gan y Myfyrwyr	17.1. Trafodwyd y mater o aelodaeth myfyrwyr â'r Coleg. Crybwyllwyd bod yr aelodau am deimlo'n rhan o drefniadaeth gadarn a bod eisiau trefnu rhagor o ddigwyddiadau megis y gig a drefnwyd gan Ganghennau'r de-ddwyrain adeg Santes Dwynwen eleni. 17.2. Byddai hyn yn rhoi perchnogaeth o'r Coleg i aelodau ac yn codi ymwybyddiaeth a phroffil y Coleg.	Canghennau i ystyried	Parhaol
18. Materion o'r Canghennau	18.1. Adroddwyd ar lafar am bryderon a nodwyd gan aelodau o Gangen Prifysgol Bangor am y dyfarniadau Cynllun Staffio. 18.2. Yn ogystal nodwyd pryderon a godwyd ym Mhrifysgol Bangor ynghylch y newidiadau i weinyddiaeth yr ysgoloriaethau yn sgîl y cylchlythyr a ddisbarthwyd yn Ionawr 2013. Adroddwyd bod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi trafod y mater a bod cylchlythyr wedi ei gyhoeddi yn rhoi cyfle i'r sefydliadau, ac eraill, ymateb a	Canghennau i ymateb i gylchlythyr y Coleg	Erbyn 27 Chwefror 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>mynegi eu safbwynt ar y mater.</p> <p>18.3. Nodwyd cais Prifysgol Aberystwyth i drafod mater cynrychiolaeth y paneli pwnc, i ystyried nifer a natur enwebiadau sefydliadol, patrwm cynrychiolaeth yn fwy cyffredinol a'r angen am arweiniad i aelodau. Nodwyd yn ogystal cais i drafod esblygiad y paneli a'r cwestiwn o atebolrwydd cynrychiolwyr i'w sefydliad ar y naill law ac i'r Coleg ar y llaw arall.</p> <p>18.4. Awgrymwyd y gallai'r canghennau trafod mater y paneli pwnc a chyflwyno argymhellion, os oes rhai, cyn y cyfarfod nesaf.</p>	Canghennau i baratoi sylwadau i'r Bwrdd Academaidd nesaf	Cyn diwedd Ebrill 2013
19. Materion yn codi	<p>19.1. Presenoldeb Nodwyd bod y Cofrestrydd wedi anfon e-bost at yr aelodau ynghylch y mater. Nodwyd fod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ddisgwyliedig a bod cyfansoddiad y Bwrdd yn nodi y byddai aelodaeth y sawl sydd yn methu dau gyfarfod yn olynol yn dod i ben. Nodwyd bod angen rheswm dilys i gollu cyfarfod gan fod diffyg presenoldeb arbenigwr ar faes penodol yn y cyfarfod yn gollod. Yn sgîl hyn cytunwyd y byddai'r Deon a Nia Brown yn creu cofrestr presenoldeb o'r cyfarfodydd diwethaf er mwyn monitro'r sefyllfa.</p> <p>19.2. Tystysgrif Sgiliau Iaith Nodwyd bod gwefan y Coleg yn darparu gwybodaeth am y Dystysgrif Sgiliau Iaith. Awgrymwyd y gallai'r canghennau gylchredeg linc.</p> <p>19.3. Cynllun Rhan-amser Nodwyd bod y Cynllun Rhan-amser wedi ei ohirio am flwyddyn ac y byddai'r mater yn mynd gerbron y Pwyllgor Cydweithio Academaidd.</p> <p>19.4. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil Cadarnhawyd bod y Coleg wedi ysgrifennu at bwyllgor</p>	Deon a Nia Brown i greu cofrestr presenoldeb	Erbyn Mai 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>canolog y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.</p> <p>19.5. Adolygiad o faes Hyfforddiant Cychwynol Athrawon Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi cyfarfod ac wedi cyfrannu at yr adolygiad a bod HEFCW wedi cydnabod hynny.</p> <p>19.6. Sector Ysgolion Nodwyd bod Swyddogion y Coleg yn gweithio ar y mater ac y bydd adrodd nôl maes o law.</p>		
20. UFA	20.1. Nodwyd y bydd y Deon yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydweithio Academaidd er mwyn penderfynu sut orau i gynrychioli'r Bwrdd Academaidd.		
21. Dyddiad y cyfarfod nesaf	<p>21.1. Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd ar 8 Mai 2013 ym Mangor.</p> <p>21.2. Nodwyd y gellid cylchredeg wybodaeth am lety yn y Ganolfan Rheolaeth i unrhyw un a fyddai angen aros dros nos cyn y cyfarfod nesaf ym Mangor.</p>		